

Teitl y Swydd:	Swyddog Rhwydwaith DIS
Uned/Ysgol:	Gwasanaethau Gwybodaeth Ddigidol
Gradd:	6A/B
HERA:	TBC

Prif bwrpas y rôl

Yn gyfrifol am gefnogaeth dechnegol, gweinyddiaeth a datblygiad systemau cyfathrebu lleol y Brifysgol a darpariaethau gwasanaeth sy'n seiliedig ar y cwmwl. Cyflawni tasgau ffurfweddu, monitro rhagweithiol, cynnal a chadw, cefnogi a datblygu, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau eu diogelwch, eu gweithrediad a'u hargaeledd effeithiol.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Gweithredu fel arbenigwr pwnc ar gyfer gwasanaethau gwifrau a diwifr, teleffoni a systemau diogelwch TG Met Caerdydd o fewn maes cyfrifoldeb y tîm rhwydwaith. Gweithio o fewn Met Caerdydd a chyda chyflenwyr i werthuso, dylunio a/neu gynnal adolygiadau pensaernïol a chynghori ar dechnolegau TG, gofynion technegol, goblygiadau gwasanaeth a chostau, gan sicrhau bod arfer gorau diogelwch TG yn cael ei ystyried ym mhob cam.
- Ffurfweddu a gweinyddu waliau tân a system Rheoli Mynediad i'r Rhwydwaith y Brifysgol, gan ddilyn arferion gorau a gweithdrefnau adrannol. Rheoli a chefnogi offer seilwaith TG, gan weithio mewn ardaloedd canolfan ddata diogel lle bo angen, i gynnal gosodiadau caledwedd, atgyweiriadau ac uwchraddiadau.
- Cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb dros ddatrys problemau technegol cymhleth yn ymwneud â rhwydweithiau, telathrebu a seiberddiogelwch, gan gydlyn darparwyr gwasanaethau, staff technegol a chynrychiolwyr defnyddwyr, lle bo angen. Dadansoddi a diagnosio namau a gweithredu atebion cadarn ac arloesol i'w datrys.
- Darparu rheolaeth a monitro rhagweithiol ar gyfer gwasanaethau a systemau yn ôl y cyfarwyddyd. Cynnal archwiliadau rheolaidd o logiau wal dân a rhwydwaith, gan nodi a gweithredu mecanweithiau canfod ac atal. Cynorthwyo gyda sganiau a phrofion treiddiad i nodi, unioni a lliniaru gwendidau. Sicrhau bod lefelau clwtiau rhwydwaith a wal dân yn cael eu rheoli a'u cadw'n gyfredol.
- Cynnal dadansoddiad risg i sicrhau bod gosodiadau, addasiadau i systemau a thasgau cynnal a chadw yn digwydd i fodloni gofynion, safonau ac amserlenni cymeradwy gan gynnal lefelau cytunedig o gyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd.

- Ymchwilio, gwerthuso ac argymhell technolegau i fodloni gofynion y Brifysgol ac yn unol â safonau TG corfforaethol a strategaeth TG lle bo angen, gan gynhyrchu cynigion a/neu adroddiadau wedi'u costio.
- Ymgymryd â hyfforddiant, mynychu gweithdai a seminarau ar-lein i gynnal gwybodaeth gyfoes am dueddiadau a datblygiadau technoleg, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thelathrebu a diogelwch TG, eu cymhwysiad mewn Addysg Uwch, a'r gwrthfesuau i amddiffyn rhag yr heriau diogelwch y maent yn eu cynrychioli.
- Cyfrannu at ennill a chynnal achrediadau sy'n gysylltiedig â diogelwch TG.
- Ymgymryd â phrosiectau sy'n gysylltiedig â TG i fodloni gofynion busnes y Brifysgol, yn unigol ac fel rhan o dîm. Cynllunio a chydlynu gweithrediadau ac uwchraddiadau systemau a seilwaith a chynghori ar ofynion adnoddau a goblygiadau gwasanaeth.
- Chwarae rhan hanfodol yn y Tîm Ymateb i Ddigwyddiadau Diogelwch TG a gweithio gyda staff Gwasanaethau Digidol eraill a staff y Brifysgol i gynnal a phrofi cynlluniau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol unigol a thîm, yn fewnol ac yn allanol i Met Caerdydd. Cysylltu ag ysgolion, adrannau a rhanddeiliaid eraill, hyrwyddo Gwasanaethau Digidol, cymryd rhan mewn datblygiadau a grwpiau prosiectau. Sefydlu a gwerthuso gofynion busnes, yn ôl yr angen, a rhoi cyngor ar oblygiadau diogelwch y rhwydwaith a'r technolegau i'w cefnogi. Rhannu gwybodaeth a lle bo angen darparu hyfforddiant mewn technolegau newydd.
- Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â darparu gweinyddion lleol y Brifysgol, gwasanaethau cyfathrebu a darpariaethau gwasanaethau cwmwl-seiliedig yn ôl y cyfarwyddyd.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â TG
NEU
- HND / HNC mewn pwnc sy'n gysylltiedig â TG A phrofiad proffesiynol cyfatebol (fel yr amlinellir isod).
NEU
- Cymhwyster perthnasol yn broffesiynol A phrofiad proffesiynol cyfatebol (fel yr amlinellir isod).

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Gwybodaeth drylwyr am dechnolegau rhwydweithio a chyfathrebu â gwifrau a diwifr a'u cymhwysiad mewn amgylchedd corfforaethol, gan gynnwys gwybodaeth am brotocolau llwybro rhwydwaith a thechnegau datrys problemau'r Rhyngrwyd.

2. Gwybodaeth ragorol a phrofiad ymarferol o weithio gyda seilweithiau rhwydwaith – fel WANs, LANs, VLANs, Llwybryddion/Switshis, WLCs ac APs.
3. Gwybodaeth gyffredinol ragorol am ddiogelwch a thechnolegau TG a'u cymhwysiad mewn amgylchedd rhwydwaith corfforaethol.
4. Gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau TG diogel ynghyd ag ymwybyddiaeth o oblygiadau newidiadau ac uwchraddiadau.
5. Gwybodaeth dda a phrofiad ymarferol o weithio gyda thechnolegau diogelwch – fel Waliau Tân, VPNs, amgryptio ffeiliau a sesiynau a dulliau criptograffeg a diogelwch cymwysiadau gwe.
6. Profiad o weithio gyda waliau tân mewn amgylchedd rhwydwaith corfforaethol.
7. Profiad sylweddol o gefnogi a dylunio seilweithiau cyfathrebu diogel a/neu lwyfannau sy'n seiliedig ar y cwmwl.
8. Profiad o gynllunio a chydlynu gweithrediadau technegol a thasgau cymorth.
9. Dull rhesymegol a systematig o ddatrys problemau gyda'r gallu i wneud diagnosis o broblemau technegol cymhleth a'u datrys ac i nodi materion a thueddiadau sylfaenol.
10. Canolbwyntio ar gwsmeriaid gyda sgiliau rhyngpersonol rhagorol a'r gallu i gyfathrebu â myfyrwyr a staff y brifysgol ar wahanol lefelau.
11. Y gallu i weithio dan bwysau gyda sgiliau gwneud penderfyniadau a dadansoddi cryf.
12. Mae hon yn rôl hybrid gyda disgwyliad o gyfartaledd o 60% o weithio ar y safle a 40% o weithio o bell, ynghyd â'r angen i deithio rhwng safleoedd y Brifysgol, yn dibynnu ar y galw, a gweithio achlysurol y tu allan i oriau busnes arferol. Mynychu cynadleddau a digwyddiadau ledled y DU.

Dymunol

1. Cymhwyster sy'n seiliedig ar Ddiogelwch TG fel CISSP neu achrediad technegol perthnasol gan gyflenwr fel Cisco neu Microsoft.
2. Profiad o dechnolegau rhwydweithio Cisco.
3. Gwybodaeth am atebion Rheoli Mynediad i'r Rhwydwaith.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Gallaf fynegi fy hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

